

Taith y Gyllideb 2015- Buddsoddi yn y Gymru a Garem



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Er gwaetha'r heriau ariannol rydym wedi'u hwynebu yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i gynlluniau cyni Llywodraeth y DU, rydym yn glynu'n gadarn wrth ein hymrwymiad i ddiogelu'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl Cymru a rhoi hwb i'r economi.

Dros y pum mlynedd ddiwethaf, rydym wedi gweld gostyngiadau i gyllideb Cymru ar lefel na welwyd o'r blaen, gyda dros £1.4 biliwn (8% mewn termau real) yn llai i'w wario yng Nghymru nag yn 2010-11. Ni fydd Llywodraeth y DU yn amlinellu ei chynlluniau manwl ar gyfer 2016-17 a thu hwnt tan yr Adolygiad Gwariant yn yr hydref, ond ymddengys ei bod yn debygol y byddwn yn gweld rhagor o ostyngiadau yng Nghyllideb Cymru am y rhan fwyaf o weddill y degawd. Dyma'r sefyllfa rydym yn ei hwynebu wrth i ni baratoi am effeithiau toriadau pellach a sicrhau bod ein penderfyniadau am fuddsoddiadau yn y dyfodol yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer adeiladu y Gymru a garem, gan ddarparu gwell canlyniadau i ni ein hunain ac i genedlaethau'r dyfodol.

Rydym wedi gwneud popeth posibl i wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael yng Nghymru i gefnogi ein blaenoriaethau. Rydym yn bwrw ymlaen â ffyrdd newydd, arloesol o fuddsoddi yn ein seilwaith - ym maes iechyd, addysg, tai, trafnidiaeth a Band Eang. Rydym eisoes wedi creu £2.4 biliwn, a gaiff ei fuddsoddi yn y blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Rydym wedi dweud erioed bod buddsoddi mewn seilwaith yn hanfodol i sicrhau twf a swyddi, ac wrth i'r economi wella, nawr yw'r amser i fuddsoddi ymhellach, gan gefnogi busnesau a'u helpu i dyfu.

Rydym hefyd yn parhau i fanteisio ar y cyfleoedd yn rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd. Gan adeiladu ar y £3.7 biliwn sydd wedi'i sicrhau dros y cyfnod 2007-2013, mae bron £2 biliwn ar gael tan ddiwedd y degawd. Mae'r cyllid hwn yn helpu i sicrhau twf a swyddi drwy ymchwil ac arloesi, cyllid busnes, TGCh a chysylltedd trafnidiaeth, ynni a mynd i'r afael â thlodi drwy gyflogaeth gynaliadwy, sgiliau a chyflogaeth a chyrhaeddiad ymysg pobl ifanc.

Mae ein hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a thegwch, ac i wneud popeth o fewn ein gallu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau, wedi bod yn sail i'n ffordd o weithio dros y cyfnod hwn. Mae'n debygol y bydd Llywodraeth y DU yn lleihau gwariant cyhoeddus ymhellach ac yn torri gwariant ar les unwaith eto, ond bydd yr egwyddorion hyn yn parhau wrth galon ein penderfyniadau.

Bydd ein cynlluniau ar gyfer y gyllideb yn yr hydref hefyd yn gam pwysig wrth baratoi at weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a ddaw i rym fis Ebrill nesaf. Mae'r Ddeddf wedi cael ei llywio gan sgwrs blwyddyn o hyd ar 'y Gymru a Garem' - Cymru sy'n gynaliadwy. Mae gwario ataliol wedi bod yn elfen ganolog o reoli ein cyllideb lai. Mae buddsoddi'n gynnar yn allweddol i sicrhau'r canlyniad gorau i bobl Cymru a lleddfu pwysau ar gyllidebau yn yr hirdymor. Mae integreiddio a chydweithio'n effeithiol hefyd yn rhan hollbwysig o'r agenda hon.

Er mwyn cefnogi ein penderfyniadau o ran y gyllideb, rhaid i ni edrych ar yr holl dystiolaeth sydd ar gael i ddeall beth sy'n gweithio'n dda a rhannu dysgu ac arfer da. Ar Daith y Gyllideb, rwyf am glywed ein barn chi ar y materion pwysig hyn, er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn wynebu'r heriau hyn gyda'n gilydd, a Buddsoddi yn y Gymru a Garem.

Jane Hutt

Y Gweinidog Cyllid
Mehefin 2015



Nodau Llesiant

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a ddaw i rym fis Ebrill nesaf, yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn sicrhau bod y cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf yn meddwl mwy am y tymor hir, yn gweithio'n well gyda phobl a gyda'i gilydd, yn ymdrechu i atal problemau ac yn defnyddio dull mwy cydlynus. Bydd hyn yn ein helpu i greu Cymru rydym oll am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn pennu saith o nodau Llesiant:

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-deang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Hoffem i chi ystyried pa un o'r nodau Llesiant y mae eich gwasanaeth chi yn cyfrannu tuag ato a dweud wrthym:

- Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?
- A yw eich blaenoriaethau yn iawn?
- Sut gallwn ni wella gwasanaethau gyda llai o arian?
- Pa heriau rydych chi'n eu hwynebu bob dydd wrth ddarparu eich gwasanaethau?
- A oes cyfleoedd mewn rhai meysydd ar gyfer gwneud pethau'n wahanol, a chydweithio'n fwy?
- Ydych chi'n credu y dylem ddarparu mwy neu lai mewn rhai meysydd?
- Ydych chi'n credu bod pethau y dylem roi'r gorau i'w gwneud?
- Ble gallwn ni wneud arbedion?
- Beth yw eich un syniad mawr a fyddai'n trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus?

I gael rhagor o wybodaeth am gyllideb Llywodraeth Cymru a Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ewch i: www.llyw.cymru/funding/?lang=cy

I gael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ewch i: www.llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/future-generations-bill/?lang=cy